COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
THE LOCAL DEMOCRACY AND BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

# *DATGANIAD POLISI TÂL*

## *BLYNYDDOL*

## *2017-18*

## CYNNWYS

**RHAGAIR** .......... **1**

**1. CYFLWYNIAD** .......... **2**
- Y Comisiwn .......... 2
- Yr Ysgrifenyddiaeth .......... 2

**2. AMCANION Y COMISIWN** .......... **3**

**3. DIBEN Y DATGANIAD POLISI TÂL** .......... **4**

**4. DIFFINIADAU A GWNEUD PENDERFYNIADAU** .......... **5**
- Diffiniad o “swyddi uwch” .......... 5
- Diffiniad o “gyflogeion sy’n derbyn y tâl isaf” .......... 5
- Diffiniad o “staff nad ydynt ar y gyflogres” .......... 5

**5. FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL** .......... **6**

**6. PRIF WEITHREDWR** .......... **7**
- Rôl y Prif Weithredwr .......... 7
- Tâl y Prif Weithredwr .......... 7

**7. FFORDDIADWYEDD A GWERTH AM ARIAN** .......... **8**
- Cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch a chyflogeion sy’n derbyn y tâl isaf .......... 8
- Tystiolaeth o fforddiadwyedd a gwerth am arian .......... 8
- Swyddi uwch yn y corff â phecyn cydnabyddiaeth ariannol o fwy na £100,000 8
- Tâl sy’n seiliedig ar berfformiad .......... 8

**8. RHEOLI TALENT** .......... **9**

**9. CYMORTH I STAFF SY’N DERBYN TÂL IS** .......... **10**

**10. Y PWYNTIAU TÂL UCHAF AC ISAF** .......... **11**
- Cyfansoddiad staff yn ôl bandiau cyflog .......... 11
- Cyfansoddiad staff yn ôl rhywedd .......... 11

**11. POLISI TALIAD DISWYDDO** .......... **12**

**ATODIADAU**
Atodiad 1 – Bandiau Cyflog Llywodraeth Cymru .......... 13
Atodiad 2 – Cyfansoddiad Staff yn ôl Band Cyflog a Rhywedd .......... 14

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

## RHAGAIR

Dyma Ddatganiad Polisi Tâl blynyddol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018. Fe'i cymeradwywyd gan y Comisiwn ar 26/06/18.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar dâl ac, yn arbennig, gwneud penderfyniadau ar dâl swyddi uwch.

Ac yntau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd, yn enwedig wrth ddangos gwerth am arian cyhoeddus. Mae'n bwysig bod ymagwedd y Comisiwn at dâl yn dryloyw ac ar gael i bawb, ac yn galluogi trethdalwyr i ffurfio barn gytbwys ynglŷn â ph'un a yw penderfyniadau ar bob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol yn deg ac yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod ei bod yn fuddiol i benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl swyddi uwch gael eu gwneud yng nghyd-destun penderfyniadau tebyg yn ymwneud â staff sy'n derbyn y tâl isaf yn y sefydliad, a bod y berthynas rhwng y penderfyniadau hynny'n cael ei hystyried. Felly, bwriedir i'r Datganiad Polisi Tâl hwn alluogi trafodaeth fwy eglur ynglŷn â ph'un a yw lefelau tâl ar draws y Comisiwn yn deg.

Mae'r Datganiad hwn yn ategu gwybodaeth arall sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan, y gellir ei chyrraedd trwy'r ddolen isod:
http://ldbc.gov.wales/publications/corporate/?skip=1&lang=cy

Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani ar wefan y Comisiwn, cysylltwch â'r Comisiwn.

**Owen Watkin OBE DL**
**Cadeirydd**

# 1. CYFLWYNIAD

## Y Comisiwn

1.1 Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Comisiwn ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac fe'i hailenwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Mae darpariaethau Deddf 2013 mewn perthynas â'r Comisiwn yn disodli darpariaethau Deddf 1972.

1.2 Prif ddyletswydd y Comisiwn yw monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru er mwyn ystyried p'un a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. I gyflawni'r ddyletswydd honno, mae'r Comisiwn yn cynnal y cyfryw arolygon ag sy'n ofynnol. Wrth gynnal arolygon, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

## Yr Ysgrifenyddiaeth

1.3 Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn wedi'i lleoli yn Nhŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys swyddi'r Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Cymorth Busnes, Swyddogion Arolygon a Swyddogion Cymorth.

1.4 Y Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifyddu dynodedig y Comisiwn hefyd.

1.5 Ers 1 Ionawr 2002, mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer ei Arolygon o'r etholaethau Seneddol yng Nghymru. Adran noddi bresennol y Comisiwn Ffiniau i Gymru yw Swyddfa'r Cabinet.

## 2. AMCANION Y COMISIWN

2.1 Mae'r Comisiwn yn gorff statudol a noddir gan Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn yn cael llythyr cylch gwaith blynyddol sy'n amlinellu blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar gyfer y Comisiwn am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'n rhaid i'r Comisiwn hefyd ddilyn y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau statudol fel y'u hamlinellir mewn deddfwriaeth. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar gyfer gwneud newidiadau i ffiniau llywodraeth leol a threfniadau etholiadol llywodraeth leol sy'n ceisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

2.2 Mae Cynllun Corfforaethol 2014-2023 y Comisiwn, a gytunwyd ym mis Rhagfyr 2014, yn amlinellu'r amcanion corfforaethol fel a ganlyn:

- Sicrhau bod trefniadau etholiadol prif ardaloedd yn addas i'r diben – datblygu rhaglen o arolygon etholiadol yn unol ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

- Sicrhau bod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn addas i'r diben – gweithio gyda phrif gynghorau i sicrhau bod ffiniau Cymunedol a threfniadau etholiadol yn cael eu harolygu'n rheolaidd a'u cydlynu â'r rhaglen o arolygon etholiadol.

- Sicrhau bod ardaloedd prif gynghorau'n addas i'r diben – arolygu ffiniau prif ardaloedd fel y bo'n briodol.

- Datblygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein busnes – cynnal lefel uchel o Lywodraethu Corfforaethol, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyson i greu enw da am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn a sicrhau bod sgiliau'r staff yn cael eu datblygu a'u cynnal.

- Sicrhau bod egwyddorion Llywodraeth Cymru o ran datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r Gymraeg wedi'u hymsefydlu yn ein gwaith.

## 3. DIBEN Y DATGANIAD POLISI TÂL

3.1 Ar 7 Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru,* lle yr argymhellwyd bod "yr holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cyhoeddi Datganiad Polisi Tâl blynyddol mewn man hygyrch ac amlwg ar eu gwefannau". Dylai'r ddogfen "egluro polisïau'r corff cyhoeddus ei hun mewn perthynas ag ystod o faterion sy'n ymwneud â thâl a chydnabyddiaeth ariannol ei weithlu, yn enwedig tâl a chydnabyddiaeth ariannol ei swyddi uwch a'r cyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf". Yr argymhelliad yw bod model safonedig yn cael ei ddefnyddio gan yr holl wasanaethau sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i adrodd am dâl er mwyn sicrhau bod prosesau penderfynu cyfundrefnol yn fwy hygyrch, a ddylai arwain at fwy o graffu ar wariant cyhoeddus a defnydd mwy effeithiol o arian cyhoeddus.

3.2 Yn ystod mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus *Tryloywder Tâl Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru – Sylwadau a'r Ffordd Ymlaen a Gynigir*. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys Datganiad Polisi Tâl enghreifftiol. Bydd Datganiad Polisi Tâl y Comisiwn hwn yn dilyn yr enghraifft a roddwyd gan y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y bo'n briodol.

3.3 Mae'n rhaid i'r Datganiad Polisi Tâl hwn ddangos bod tâl i gyflogeion uniongyrchol yn y Comisiwn yn gymesur â chyfrifoldeb a rôl. Bydd yn cadarnhau bod grwpiau gwahanol o gyflogeion yn cael tâl gwahanol ac yn esbonio pam mae'r gwahaniaeth hwn yn bodoli.

3.4 Yn ychwanegol at y ddogfen hon, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, yn cynnwys Datganiadau Ariannol ac Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol sy'n darparu manylion pellach; fodd bynnag, gellir cael copi o gyfrifon llawn y sefydliad trwy gysylltu â'r Rheolwr Cyllid, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd, CF24 0BL (e-bost: cffdl.cymru@llyw.cymru).

3.5 Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Mae contract yn bodoli gydag Archwilwyr Mewnol, Deloitte LLP, ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliadau allanol.

## 4. DIFFINIADAU A GWNEUD PENDERFYNIADAU

4.1 Mae graddfeydd staff a Thelerau ac Amodau'r Comisiwn yn cyfateb i rai Llywodraeth Cymru. Fel y cyfryw, mae'r datganiadau canlynol o Ddatganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru yn berthnasol:

"Mae'r Ysgrifennydd Parhaol [yn Llywodraeth Cymru] yn gyfrifol am argymell trefniadau cyflog priodol ar gyfer staff dirprwyedig i'r Gweinidogion. Staff dirprwyedig yw'r gweithwyr gradd Cymorth Tîm, Band Rheoli a Band Gweithredol. Yn sail i'r trefniadau hyn, mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol [yn Llywodraeth Cymru] yn gyfrifol am sicrhau bod Undebau Llafur yn chwarae rhan lawn yn y trafodaethau cyflog, mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol, a thrwy Gytundeb Bargeinio ar y Cyd.

Daw swyddogaethau uwch reolwyr o dan yr Uwch Wasanaeth Sifil ar lefelau Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol. Nid yw cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil wedi'i ddirprwyo, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n dyfarnu cyflog iddynt yn unol â'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU, yn dilyn argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion."

Mae Polisi Tâl Llywodraeth Cymru ar gael yn:
https://gov.wales/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/ourfinance/PayPolicyStatement/?skip=1&lang=cy

**Diffiniad o "swyddi uwch"**

4.2 At ddiben y Datganiad Polisi Tâl hwn, mae'r Comisiwn yn diffinio "swyddi uwch" fel y swyddi hynny ym Mand Rheoli 1 neu'n uwch. Mae un aelod o staff yn cael ei gyflogi ar Fand Rheoli 1 ac mae un aelod o staff yn cael ei gyflogi ar Fand Gweithredol 2.

**Diffiniad o "gyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf"**

4.3 At ddibenion y Datganiad Polisi Tâl hwn, mae'r Comisiwn yn diffinio "cyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf" fel aelodau staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu'n cael eu secondio'n fewnol sy'n ennill y cyflog isaf cyfwerth ag amser llawn. Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys staff asiantaeth/staff nad ydynt ar y gyflogres.

**Diffiniad o "staff nad ydynt ar y gyflogres"**

4.4 "Staff nad ydynt ar y gyflogres" yw'r unigolion hynny a gyflogir gan y Comisiwn nad yw eu manylion yn cael eu cofnodi ar system gyflogres y Comisiwn ac felly nad ydynt wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau ar gyfer PAYE neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Yn achos y Comisiwn, mae hyn fel arfer yn golygu staff a gyflogir trwy asiantaeth ar gontract dros dro am gyfnod byr. Yn ystod 2017-18, roedd tri aelod o staff y Comisiwn yn cael eu cyflogi oddi ar y gyflogres; talwyd pob un ohonynt llai na'r trothwy £220 y diwrnod. Staff asiantaeth oedd yr aelodau staff hyn ac fe'u cyflogwyd ar gontract dros dro. Penderfynir cyflogi staff nad ydynt ar y gyflogres yn dilyn trafodaeth rhwng Comisiynwyr a'r rhai sy'n dal "swyddi uwch" yn yr Ysgrifenyddiaeth.

## 5. FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

5.1 Fel y nodwyd uchod, mae graddfeydd staff a Thelerau ac Amodau'r Comisiwn yn cyfateb i rai staff Llywodraeth Cymru.

5.2 Mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i benodi staff o dan adran 52 Deddf Llywodraeth Cymru 2006; ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol wrth bennu tâl a chydnabyddiaeth ariannol ei staff. Mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol gyfrifoldeb dirprwyedig gan Brif Weinidog Cymru o dan Ddeddf Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992 am swyddogaethau personél, gan gynnwys materion yn ymwneud â thâl.

5.3 Cytunwyd ar fframwaith rhwng y Comisiwn a'i Adran Noddi yn Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol). Mae hwn yn amlinellu'r fframwaith y mae'r Comisiwn yn gweithredu ynddo ac yn manylu ar y telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru'n eu dilyn i ddarparu cymorth grant i'r Comisiwn; mae gan y Comisiwn bŵer i benodi staff o dan y fframwaith. Y cymorth grant a ddarperir yw'r hyn sy'n galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei amcanion corfforaethol.

# 6. PRIF WEITHREDWR

### Rôl y Prif Weithredwr

6.1 Y Prif Weithredwr yw'r uwch swyddog sy'n arwain y sefydliad ac yn cymryd cyfrifoldeb amdano. Cymorth grant y Comisiwn ar gyfer 2017-18 oedd £716,628 ar gyfer y flwyddyn ariannol.

6.2 Penodiad amser llawn, parhaol yw rôl y Prif Weithredwr. Dewisir deiliad y swydd ar sail teilyngdod, yn unol ag amcanion a nodir mewn meini prawf, yn dilyn hysbyseb gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Fe'i penodir gan Is-adran Noddi'r Comisiwn.

6.3 Fel pennaeth y Comisiwn, mae'r Prif Weithredwr yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynwyr i gyflawni'r amcan a nodir ym mhwynt 2 uchod. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol, o dan y Comisiynwyr, am drefniadaeth, rheolaeth, a staffio cyffredinol y Comisiwn ac am ei weithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill, gan gynnwys ymddygiad a disgyblaeth.

6.4 Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y sefydliad ac, fel y cyfryw, mae'n gyfrifol am sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn cael ei chynnal yn y sefydliad.

6.5 Mae'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gyfrifol am awdurdodi gwariant yn y Comisiwn.

### Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr / Uwch Reolwyr sy'n fwy na £100,000

6.6 Nid yw unrhyw aelod o staff yn y Comisiwn yn derbyn pecyn cydnabyddiaeth ariannol o fwy na £100,000. Y Prif Weithredwr sy'n dal y swydd uchaf ei thâl yn y Comisiwn (Band Gweithredol 2 Llywodraeth Cymru), y mae ei chydnabyddiaeth ariannol rhwng £48,650 a £58,185.

### Treuliau

6.7 Mae treuliau fel tocynnau trên, milltiroedd car, llety dros nos a pharcio yn cael eu hawlio'n ôl yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth y sefydliad, sy'n darparu'r canlynol:

"*Mae taliadau teithio a chynhaliaeth yn rhoi ad-daliad i chi am y costau ychwanegol, angenrheidiol rydych chi'n eu talu o ganlyniad i fusnes swyddogol i ffwrdd oddi wrth eich gweithle arferol (h.y. y swyddfa lle rydych chi'n gweithio'n barhaol). Mae'n ofynnol i chi ddefnyddio'ch crebwyll i bennu p'un a yw cost yn angenrheidiol ac yn ychwanegol at yr hyn y byddech chi'n ei dalu yn eich gweithle parhaol fel arfer. Ni fwriedir i daliadau o'r fath eich digolledu am anghyfleustra bod oddi cartref neu i ffwrdd oddi wrth eich gweithle arferol.*

*Ni chewch hawlio ad-daliad am dreuliau y gellid bod wedi'u hosgoi trwy gynllunio'n well neu nad oeddent yn angenrheidiol fel arall ar gyfer dibenion swyddogol yr ymweliad.*

*Mae ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth wedi'i seilio ar gostau gwirioneddol ac nid ydynt yn bensiynadwy.*"

# 7. FFORDDIADWYEDD A GWERTH AM ARIAN

### Cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch a chyflogeion sy’n derbyn y tâl isaf

7.1 Gan fod bandiau cyflog y Comisiwn yn cyfateb i rai Llywodraeth Cymru, mae staff sy’n dal swyddi uwch a’r cyflogeion sy’n derbyn y tâl isaf yn cael tâl cyfwerth â staff ar yr un bandiau sy’n gweithio yn Llywodraeth Cymru.

### Tystiolaeth o fforddiadwyedd a gwerth am arian

7.2 Mae’r Comisiwn yn cynnal y canlynol er mwyn dangos fforddiadwyedd a gwerth am arian:

- Monitro ac adrodd rheolaidd ar ffurf Adroddiadau Cyllideb misol;
- Cyhoeddi Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Blynyddol;
- Cynhaliwyd Ymarferiad Gwerthuso Swyddi yn ystod 2014, a gadarnhaodd fod pob swydd wedi’i graddio’n briodol, a bod pob swydd yn cael sgôr ar ben uchaf y bandiau priodol.

7.3 Mae angen taro cydbwysedd rhwng gwerth am arian i’r trethdalwr a chynnig tâl digonol i sicrhau bod staff â’r sgiliau priodol yn cael eu cyflenwi a’u cadw. Mae’r mwyafrif o aelodau staff yn gymwys i ddefnyddio meddalwedd mapio arbenigol, mae’n ofynnol i lawer ohonynt ddeall ac ymateb i ddeddfwriaeth berthnasol, mae’n ofynnol i rai aelodau staff feddu ar brofiad ym maes cyllid, mae llawer o’r aelodau staff yn meddu ar y gallu i gyflawni nifer o rolau, mae’n ofynnol i aelodau staff feddu ar y gallu i gydweithredu a ffurfio perthnasoedd da gyda rhanddeiliaid, mae rhai aelodau staff yn siaradwyr Cymraeg ac yn defnyddio sgiliau cysylltiedig yn ddyddiol.

### Tâl sy’n seiliedig ar berfformiad

7.4 Mae polisïau’r Comisiwn yn cyfateb i rai Llywodraeth Cymru, i raddau helaeth. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, felly, nid oes gan y Comisiwn system tâl sy’n seiliedig ar berfformiad.

### Lwfansau

7.5 Mae’r Comisiwn yn talu Lwfans Recriwtio a Chadw i’r holl staff sy’n ymwneud â gwaith ei raglen arolygon etholiadol. Cytunwyd ar hyn gan y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017. Ystyriwyd bod y lwfans yn angenrheidiol i gadw staff a oedd wedi cael cryn dipyn o hyfforddiant yn flaenorol ac wedi caffael y wybodaeth a’r sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â rhaglen y Comisiwn o arolygon etholiadol o brif awdurdodau yng Nghymru.

## 8. RHEOLI TALENT

8.1 Mae gan y Comisiwn nifer o drefniadau ar waith a fwriedir i feithrin talent fewnol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- System cysgodi a chyfeillio ar gyfer aelodau staff;
- Mae'r Comisiwn yn dal y Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl;
- Mae'r Comisiwn yn annog ac yn cynorthwyo datblygu llwybrau gyrfaol sy'n rhychwantu meysydd gwahanol gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r sefydliad yn ariannu ac yn cynorthwyo aelodau staff gyda chyrsiau hyfforddi, er enghraifft, mewn Rheoli Cyfleusterau a sgiliau Cymraeg;
- Mae aelodau staff ym mhob cam yn cael cymorth i ddatblygu. Mae gan y Comisiwn gyllideb hyfforddi, ac anogir aelodau staff i ymestyn eu profiad a'u gwybodaeth trwy gymryd rhan mewn prosiectau amrywiol;
- Mae'r sefydliad yn bwriadu cymryd rhan yng Ngwobrau Iechyd y Gweithle Bach yn ystod 2018-19.

## 9. CYMORTH I STAFF SY'N DERBYN TÂL IS

9.1 Mae'r Comisiwn yn ymdrechu i daro cydbwysedd rhwng cyflawni gwerth am arian i'r trethdalwr a chynnig cymorth i staff sy'n derbyn tâl is. Gwireddir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Mae benthyciadau staff di-log ar gael ar gyfer prynu tocynnau teithio tymor;
- Mae profion llygaid rhad ac am ddim yn cael eu cynnig i aelodau staff;
- Mae'n bosibl i aelodau staff wneud cais am fenthyciadau fel blaenswm cyn cyflog, er enghraifft, adeg y Nadolig;
- Defnyddir Cerdyn Caffael Cymru i dalu ymlaen llaw am westai a threnau, sy'n golygu bod llai o gostau gan staff sy'n teithio ar gyfer busnes i dalu amdanynt ymlaen llaw;
- Wrth deithio gydag uwch swyddogion, telir costau cynhaliaeth aelodau staff gyda cherdyn, sy'n golygu mai ychydig iawn o dreuliau y bydd staff yn mynd iddynt;
- Pan fydd teithio ar gyfer busnes yn ofynnol am gyfnod estynedig, telir ymlaen llaw am giniawau a phrydau gyda'r nos;
- Gall staff wneud cais i amrywio oriau gweithio (gan gynnwys gweithio gartref), pan fydd amgylchiadau busnes yn caniatáu hynny, a allai arwain at dreuliau teithio i'r gwaith is; ac
- Mae'r holl aelodau staff yn gweithio oriau hyblyg.

## 10. Y PWYNTIAU TÂL UCHAF AC ISAF

10.1 Mae pwyntiau tâl y Comisiwn yn cyfateb i bwyntiau tâl Llywodraeth Cymru ar gyfer bandiau perthnasol. Rhoddir bandiau cyflog Llywodraeth Cymru yn Atodiad 1.

10.2 Mae'r cyflogai sy'n cael y tâl isaf ar y Band Cymorth Tîm. Lleiafswm y band cyflog yw £17,200 y flwyddyn ac mae'n codi i £22,500 y flwyddyn. Mae hyn yn eithrio: prentisiaid a gyflogir yn unol â threfniadau gwahanol sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant; a staff asiantaeth.

10.3 Y cyflogai sy'n cael y tâl uchaf yw'r Prif Weithredwr. Lleiafswm y band cyflog yw £48,650, ac mae'n codi i £58,185; mae deiliad presennol y swydd yn ennill £58,185.

10.4 Y gymhareb rhwng y cyflogai sy'n cael y tâl uchaf a'r cyflogau sy'n cael y tâl isaf yw 2.5:1.

10.5 Y cyflog canolrifol yn y sefydliad yn ystod y flwyddyn oedd Band Rheoli 3, sef £28,770.

**Cyfansoddiad Staff yn ôl Rhywedd a Bandiau Cyflog**

10.6 Rhoddir cyfansoddiad staff y Comisiwn yn ôl rhywedd a bandiau cyflog yn Atodiad 2.

## 11. POLISI TALIAD DISWYDDO

11.1 Mae bandiau cyflog a thelerau ac amodau'r Comisiwn yn cyfateb i rai Llywodraeth Cymru. Mae diswyddo gorfodol yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel mater sy'n teilyngu'r cydweithredu agosaf rhwng Rheolwyr a'r Undebau Llafur, felly byddai unrhyw bolisi taliad diswyddo a gynhyrchir gan y Comisiwn yn cyfateb i Bolisi Diswyddo Llywodraeth Cymru.

11.2 Mae'n bolisi gan y Comisiwn, trwy flaengynllunio gofalus, i sicrhau sicrwydd cyflogaeth i'w staff cyn belled ag y bo modd, ac mae'n gwneud ei orau glas i osgoi troi at ddiswyddiadau gorfodol i'r rheiny sy'n dymuno parhau â'u gyrfaoedd yn y Gwasanaeth Sifil.

11.3 Nid oes Polisi Taliad Diswyddo gan y Comisiwn. Pe bai sefyllfa'n codi lle byddai ymadawiad gwirfoddol neu ddiswyddiad gorfodol yn ofynnol, byddai canllaw llawn i staff ar bob agwedd ar unrhyw gynllun yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi.

11.4 Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw achos i gyflwyno Polisi Taliad Diswyddo / Dileu Swydd yn ystod y cyfnod 2017/18.

**Atodiad 1**

**Bandiau Cyflog Llywodraeth Cymru**
**Staff Dirprwyedig – Cymorth Tîm, Rheoli a Gweithredol**

| Band Cyflog | Pwyntiau Tâl | Cyflog |
|---|---|---|
| **Band Gweithredol** | **Band Gweithredol 1** | |
| | 4 | £71,475 |
| | 3 | £66,650 |
| | 2 | £63,350 |
| | 1 | £61,090 |
| | **Band Gweithredol 2** | |
| | 4 | £58,185 |
| | 3 | £54,150 |
| | 2 | £51,400 |
| | 1 | £48,650 |
| **Band Rheoli** | **Band Rheoli 1** | |
| | 4 | £44,950 |
| | 3 | £41,850 |
| | 2 | £39,750 |
| | 1 | £37,600 |
| | **Band Rheoli 2** | |
| | 4 | £35,750 |
| | 3 | £32,900 |
| | 2 | £31,000 |
| | 1 | £29,100 |
| | **Band Rheoli 3** | |
| | 3 | £27,400 |
| | 2 | £24,900 |
| | 1 | £23,625 |
| **Cymorth Tîm** | **Band Cymorth Tîm** | |
| | 3 | £22,500 |
| | 2 | £19,350 |
| | 1 | £17,200 |

**Atodiad 2**

**Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**
**Cyfansoddiad Staff yn ôl Band Cyflog a Rhywedd**

| **Band Cyflog** | **Gwrywaidd** | | | | **Benywaidd** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **FTE/ FYE** | **%** | **Cyfrif Pennau** | **%** | **FTE/ FYE** | **%** | **Cyfrif Pennau** | **%** |
| Band Gweithredol 2 | 1 | 100 | 1 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Band Rheoli 1 | 1 | 100 | 1 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Band Rheoli 2 | 1 | 100 | 2 | 67 | 0 | 0 | 1 | 33 |
| Band Rheoli 3 | 5 | 71 | 5 | 71 | 2 | 29 | 2 | 29 |
| Cymorth Tîm | 1 | 33 | 2 | 40 | 2 | 67 | 3 | 60 |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **9** | **69** | **11** | **65** | **4** | **31** | **6** | **35** |
| Cyfanswm y flwyddyn flaenorol | 8 | 73 | 10 | 71 | 3 | 27 | 4 | 29 |
| Amrywiant | +1 | -4 | +1 | -6 | +1 | +4 | +2 | +6 |